north wales economic ambition board
bwrdd uchelgais economaidd gogledd cymru

**TAFLEN BENDERFYNIAD**
**Dydd Gwener, 24 Ionawr 2020**

**Dyddiad y Penderfyniad:** Dydd Gwener, 24 Ionawr 2020

---

**PWNC**

Eitem 5:DIWEDDARIAD CYNNYDD

---

**PENDERFYNIAD**

Nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

---

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Cyflwynwyd yr adroddiad er mwyn rhoi diweddariad ar y cynnydd gan y Grŵp Swyddogion Gweithredol. Derbyniwyd diweddariad ar apwyntio pedwar aelod o staff i'r Swyddfa Rhaglen, sydd yn cynnwys Cyfarwyddwr Rhaglen.  Hefyd, nodwyd y bydd gweithdy Llywodraethu yn cael ei gynnal ar gyfer 14 Chwefror 2020, ac fe dderbyniwyd diweddariad ar waith Cadeirydd y Bwrdd Uchelgais.

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r grŵp gweithredol

Ymgynghorwyd a'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu gynnwys yn yr adroddiad.

---

north wales economic ambition board
bwrdd uchelgais economaidd gogledd cymru

**TAFLEN BENDERFYNIAD**
**Dydd Gwener, 24 Ionawr 2020**

**Dyddiad y Penderfyniad:** Dydd Gwener, 24 Ionawr 2020

---

**PWNC**

Eitem 6:CYLLIDEB REFENIW 2019/20 - ADOLYGIAD TRYDYDD CHWARTER (RHAGFYR 2019)

---

**PENDERFYNIAD**

Derbyniwyd yr adolygiad trydydd chwarter o gyllideb y Bwrdd Uchelgais ar gyfer 2019/20, a cytunwyd i drosglwyddo unrhyw danwariant yn 2019/20 i'r gronfa wrth gefn fel y bydd ar gael yn y dyfodol.

---

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Adroddwyd ar y gwahanol benawdau cyllideb roedd yn gorwario / tanwario, a nodwyd fod amcangyfrif y bydd tanwariant net o £117,424 ar ddiwedd 2019/20, fydd yn cael ei drosglwyddo i'r gronfa wrth gefn a sefydlwyd ar ddiwedd 2018/19.

Er mwyn gweithredu yn effeithiol, mae angen i'r Cyd-Bwyllgor (y Bwrdd Uchelgais) fod yn ymwybodol o'i sefyllfa gwariant hyd yma a'r rhagamcanion gwariant eleni yn erbyn ei gyllideb flynyddol.

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r grŵp gweithredol

Ymgynghorwyd a'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu gynnwys yn yr adroddiad.

---

north wales economic ambition board
bwrdd uchelgais economaidd gogledd cymru

**TAFLEN BENDERFYNIAD**
**Dydd Gwener, 24 Ionawr 2020**

**Dyddiad y Penderfyniad:** Dydd Gwener, 24 Ionawr 2020

---

**PWNC**

Eitem 7: CAIS ADEILADU CAPASITI SEFYDLIADOL ESF

---

**PENDERFYNIAD**

Cymeradwyo'r Strwythur Staffio ar gyfer y Swyddfa Rhaglen, a dirprwyo'r hawl i'r Cyfarwyddwr Rhaglen mewn ymgynghoriad gyda Phrif Weithredwr y Corff Lletya a'r Swyddog Cyllid Statudol i addasu'r strwythur fel yr angen o fewn y gyllideb.

Cymeradwyo'r dyddiadau cychwyn ar gyfer staff o fewn y strwythur staffio, a penodi i'r Swyddfa Rhaglen cyn y Cytundeb Terfynol, lle mae'r swyddi yn fforddiadwy o fewn y gyllideb graidd a chyllideb ESF (fel y'i rhestrwyd yn rhan 4.2.5 o'r adroddiad).

Penderfynwyd, yn amodol ar y materion sydd wedi ei amlygu yn yr adroddiad, awdurdodi'r Cyfarwyddwr Rhaglen i greu y swyddi ac ymgymryd â'r broses benodi yn unol â threfniadau a pholisïau'r Corff Lletya.

Penderfynwyd dirprwyo'r hawl i'r Cyfarwyddwr Rhaglen, mewn ymgynghoriad a Prif Weithredwr y Corff Lletya a'r Swyddog Cyllid Statudol i dderbyn cynnig grant gan WEFO yn seiliedig ar 50% o gyfanswm cost y prosiect ar gyfer cyfnod Gorffennaf 2018 at Mehefin 2023. Cadarnhawyd y bydd y Bwrdd Uchelgais yn cyfrannu 50% o arian cyfatebol, yn bennaf drwy gyfuniad o gyfalafu prosiectau a chyllideb craidd.

---

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Bydd y grant ESF yn rhoi arian i'r rhanbarth i ddatblygu a gweithredu'r Weledigaeth Twf drwy sefydlu Swyddfa Rhaglen. Bydd y Swyddfa Rhaglen yn cychwyn gyda tîm craidd o swyddogion wedi'i ariannu'n rhannol drwy'r grant ESF.

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r grŵp gweithredol

Ymgynghorwyd a'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu gynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD**
**Dydd Gwener, 24 Ionawr 2020**

**Dyddiad y Penderfyniad:** Dydd Gwener, 24 Ionawr 2020

---

**PWNC**

Eitem 9:CADEIRYDD Y BWRDD CYFLAWNI BUSNES - RHESTR FER

---

**PENDERFYNIAD**

Bod pedwar o'r ymgeiswyr yn gymwys i'w rhoi ar y rhestr fer ar gyfer cyfweliad.

---

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Byddai tynnu rhestr fer o ymgeiswyr yn un o'r cerrig milltir allweddol yn y broses o recriwtio a phenodi unigolyn i'r swydd allweddol hon

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r grŵp gweithredol

Ymgynghorwyd a'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu gynnwys yn yr adroddiad.

---